NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Benralizumab ar gyfer trin asthma eosinoffilig difrifol

06 Mawrth 2019

Mae Benralizumab ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth ychwanegol bosibl ar gyfer asthma eosinoffilig difrifol ymhlith oedolion sy'n cymryd corticosteroidau mewn-anadlu dos uchel ynghyd ag anadlydd gweithydd beta hirweithredol, os yw'r canlynol yn wir:

- mae nifer yr eosinoffilau yn eu gwaed wedi bod yn 300 cell/meicrolitr neu fwy, a gwnaeth eu hasthma waethygu ac roedd angen corticosteroidau systematig arnynt o leiaf 4 gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf neu maent wedi bod yn cael corticosteroidau a gymerir drwy'r geg am y 6 mis diwethaf, neu
- yw nifer yr eosinoffilig yn eu gwaed wedi bod yn 400 cell/meicrolitr neu fwy, a gwnaeth eu hasthma waethygu ac roedd angen corticosteroidau systematig arnynt o leiaf 3 gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dim ond os yw'n gweithio'n ddigon da y gellir parhau i gymryd benralizumab ar ôl 12 mis.

Os nad ydych yn gymwys i gael benralizumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Asthma UK, 0300 222 5800
- Asthma Relief Charity, 01793 524004

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3262-7



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.